O FOD YN CYNORTHWYO I FOD YN ATHRO…

# Astudiaeth Achos **Owen Gwyn Ifans**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

**Mae Owen Ifans, a gafodd ei eni a'i fagu yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint, bellach wedi dychwelyd i'w hen ysgol uwchradd am y trydydd tro. Ar ôl treulio saith mlynedd hapus yno fel disgybl, dychwelodd fel cynorthwyydd addysgu, ac mae bellach yn dechrau ar ei drydedd flwyddyn fel athro mathemateg cymwysedig.**

**Ac yntau'n siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, mae Owen wastad wedi bod wrth ei fodd â mathemateg, ac ar ôl ei astudio ar gyfer Safon Uwch cychwynnodd ar gwrs peirianneg fecanyddol ym Mhrifysgol Caerdydd. Cwblhaodd ei Radd Meistr yno hefyd ac yna, wrth chwilio am swyddi, cafodd alwad ffôn gan ei gyn-athro Mathemateg yn gofyn a fyddai ganddo ddiddordeb mewn dychwelyd i Ysgol Maes Garmon fel cynorthwyydd addysgu.**

**Bu hyn yn agoriadol llygad i Owen:**

"Tan hynny dydw i ddim yn meddwl fy mod wedi ystyried mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth ond mwynheais helpu'r plant i ddysgu a deall mathemateg yn fawr, ac roedd yn wych eu gweld yn datblygu o ddydd i ddydd. Dyna pryd y penderfynais fy mod eisiau bod yn athro a chyflwynais fy nghais i Brifysgol Bangor."

**Yn ystod ei hyfforddiant gwnaeth ymarfer dysgu yn Ysgol Tryfan, Bangor ac Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ond pan ddaeth yr amser i Owen wneud cais am swyddi addysgu, Ysgol Maes Garmon oedd yn galw eto:**

"Yn ystod fy ail ymarfer dysgu gwelais hysbyseb ar gyfer athro Mathemateg yn Ysgol Maes Garmon felly wnes i ddim oedi cyn gwneud cais – a bûm yn llwyddiannus. Rydw i bellach yn dechrau fy nhrydedd flwyddyn yno ac yn credu fy mod yn ffodus o allu addysgu pwnc rydw i wrth fy modd ag ef ar lefel TGAU a Safon Uwch a gwneud hynny drwy gyfrwng fy mamiaith."

**Mae Owen yn ymwybodol bod yna gred hanesyddol y byddai pynciau mathemateg a gwyddoniaeth yn cael eu haddysgu'n well drwy gyfrwng y Saesneg ar lefel uwch, ond mae ei brofiad ei hun yn gwrth-ddweud hyn:**

"Astudiais fy holl bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol a newid i'r Saesneg ar gyfer fy nghwrs peirianneg prifysgol. Yn groes i fod yn broblematig, rydw i'n credu ei fod wedi fy helpu gan fod gen i ddealltwriaeth ehangach o gynnwys y pwnc. Rydw i'n credu hefyd ei bod hyd yn oed yn haws gyda'm pwnc i, gan fod Mathemateg yn iaith gyffredinol ei hun."

**Ac yntau wedi dechrau fel cynorthwyydd addysgu, mae Owen yn credu bod hyn wedi ei helpu'n fawr wrth iddo fentro i addysgu'n llawn amser:**

"Mae fy mhrofiad fel cynorthwyydd addysgu wedi bod yn amhrisiadwy; roedd yn caniatáu imi arsylwi technegau rydw i wedi gallu eu defnyddio fy hun a'u haddasu i'm harddull addysgu fy hun, a rhoddodd fwy o hyder imi wrth baratoi i sefyll o flaen y dosbarth.

"Mae addysgu'n yrfa mor werthfawr ac rydw i'n teimlo bod hyd yn oed mwy o barch tuag at y proffesiwn ar ôl y misoedd diwethaf. Mewn cyfnod mor ansicr rydw i'n teimlo'n ffodus i gael gyrfa sefydlog, hirdymor gyda chymorth parhaus ar gael, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried hyfforddi i fod yn athro i fynd amdani – wnewch chi ddim difaru."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru